## Senedd Ieuenctid Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

9 Ionawr 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 10 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn:

1. ***Beth yw cyfanswm y gost o gynnal etholiad Senedd Ieuenctid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar?***
   - ***Costau gwefan.***
   - ***Hysbysebion/Llenyddiaeth Farchnata/Taflenni ac ati.***
   - ***Costau gweinyddol, staffio.***

Beth yw cyfanswm y gost o gynnal etholiad Senedd Ieuenctid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar?

- Mae'r gost hon yn cynnwys cost y wefan https://www.seneddieuenctid.cymru (sef tanysgrifiad blynyddol o £340 nad yw'n ymwneud yn benodol â'r etholiad).
- Cost hysbysebion oedd £1,345.50. Cafodd yr holl lenyddiaeth farchnata a'r taflenni eu gwneud yn fewnol ac felly nid oedd costau ychwanegol.
- Cyflogwyd aelod o staff rhan-amser ar Fand Rheoli 1 yn fewnol i reoli'r prosiect. Cafodd pob swyddogaeth weinyddol arall mewn perthynas â chynnal etholiad Senedd Ieuenctid Cymru ei chynnal gan staff presennol.

2. ***Faint o staff cyflogedig fu'n ymwneud â rhedeg a chydlynu etholiad Senedd Ieuenctid Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar?***

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wasanaeth Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc er 2000. Mae gan y tîm hwn 8 aelod o staff sy'n rhedeg gwahanol wasanaethau, gan gynnwys ymweliadau ysgolion ag ystâd y Cynulliad, ac ymweliadau allgymorth ag ysgolion a grwpiau ieuenctid ledled Cymru. Fel

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

rhan o'u gwaith bob dydd, gododd aelodau'r tîm ymwybyddiaeth o etholiad Senedd Ieuenctid Cymru, gan annog pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio, enwebu eu hunain, ac yna pleidleisio yn yr etholiad.
Cyflogwyd aelod ychwanegol o staff yn rhan-amser i reoli'r prosiect. Cynhaliwyd yr etholiad gyda'r adnodd presennol hwn.

3. ***Yn deillio o Gwestiwn 2. Beth yw cyflogau'r staff cyflogedig sy'n ymwneud â rhedeg a chydlynu etholiad Senedd Ieuenctid Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar?***

Un aelod o staff ar Fand Rheoli 1.

4. ***Sawl gwaith y flwyddyn y bydd Senedd Ieuenctid Cynulliad Cymru yn cwrdd ar gyfer dadlau yn y Siambr, trafodaethau, ac ati?***

Mewn tymor dwy flynedd, bydd 60 Aelod Senedd Ieuenctid Cymru (ASIC) yn cyfarfod dair gwaith ar gyfer prif ddadleuon a thrafodaethau yn Siambr y Senedd. Y tu allan i'r cyfarfodydd hyn, bydd yr Aelodau yn cyfarfod yn eu rhanbarthau mewn grwpiau llai bob 6-8 wythnos.

5. ***Beth yw'r amcangyfrif o'r costau blynyddol ar gyfer rhedeg Senedd Ieuenctid Cynulliad Cymru, gan gynnwys costau staff cysylltiedig, treuliau, llogi ystafelloedd, ac ati?***

Amcangyfrifir mai £88,000 y flwyddyn fydd cost rhedeg Senedd Ieuenctid Cymru, a £103,000 mewn blwyddyn etholiad.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru at: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu trwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Y Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF